






PROSPECTWS

Ysgol Uwchradd cyfrwng
Cymraeg i ddisgyblion
rhwng 11-18 oed

 @ymll_wreccsam
 @YsgMorganLlwyd
 Ysgol Morgan Llwyd Wreccsam

01978 315050 
Ysgol Morgan Llwyd, Cefn Road, 
Wreccsam, LL13 9NG
www.ysgolmorganllwyd.cymru 
bocspost@ysgolmorganllwyd.wrexham.sch.uk 

CYNNWYS



1	CROESO
2	MANYLION CYSWLLT
3-5	PARHAU Â'R DAITH
6	GWELEDIGAETH A GWERTHOEDD
7	Y GYMRAEG
8	POLISI DERBYN
9	Y CYNLLUN TROCHI
10	Y DIWRNOD YSGOL
11-12	CWRICWLWM
13	CHWECHED DOSBARTH
14-15	CEFNOGI DISGYBLION / YR HWB BUGEILIOL
16-17	YR HWB DYSGU
18	YSGOL IACH
19-20	DATHLU LLWYDDIANT
21-22	TU HWNT I'R DOSBARTH
23	CYSYLLTIADAU DIWYDIANT

CYNNWYS



24

YMWELIADAU A THEITHIAU

25

CYNGOR GYRFÂU

26

ADDYSG GREFYDDOL A GWASANAETHAU

27

PERTHNASOEDD AC ADDYSG RHYW

28

MEWN PARTNERIAETH Â RHINI

29

GWISG YSGOL

30

CYFLE CYFARTAL

31-32

ADY/CAMAU

33

Y TREFNYDD PERSONOL

34

DIOGELU PLANT

35

CLUDIANT

36

TREFN CWYNO

37

POLISI CODI TÂL

38

**YSTADEGAU/CANLYNIADAU
ARHOLIADAU**

CROESO



Y Agorwyd drysau Ysgol Morgan Llwyd ym mis Medi 1963 i lond dwrn o blant. Heddiw, mae bron i 900 o fyfyrwyr yn manteisio ar addysg uwchradd Gymraeg o'r radd flaenaf yma. Mae'r twf hwn yn dyst nid yn unig i lwyddiant academaidd a diwylliannol Ysgol Morgan Llwyd, ond hefyd i lwyddiant yr ysgolion cynradd ac addysg Gymraeg yn Sir Wrecsam. Mae rhieni hefyd yn gyfrifol am ei lwyddiant wrth i chi drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros addysg eich plant i'n dwylo ni.

Bydd eich plentyn yn ymuno â chymuned gyfeillgar, glos lle mae pawb yn cael eu parchu ac yn dangos parch. Mae tîm o staff ymroddgar yn gweithio'n ddiwyd i roi sylfaen addysgol gadarn i bob myfyriwr allu dilyn ei lwybr ei hun ac i dyfu'n ddinasyddion cyfrifol a llwyddiannus.

Ein nod yw cynnig y profiadau dysgu, addysgu, ac allgyrsiol gorau sy'n paratoi ein pobl ifanc ar gyfer dyfodol lle byddant yn cyflawni eu gwir botensial. Mewn partneriaeth gyda rhieni a gofalgwyr, gweithiwn i dywys pob un wrth iddynt ddechrau ar gyfnod newydd, cyffrous yn eu hanes. Rhoddwn bob cyfle iddynt feithrin cysylltiadau, sgiliau a doniau ym meysydd chwaraeon, perfformio a'r celfyddydau yn ogystal ag yn yr ystafell ddosbarth.

Mae Ysgol Morgan Llwyd yn cynnal egwyddorion ei harwyddair trwy bwysleisio mai dim ond trwy ymdrech a gwaith caled y daw llwyddiant i bob un.

Mr Iwan Owen-Ellis
Pennaeth Gweithredol



MANYLION CYSWLLT



01978 315050



Ysgol Morgan Llwyd, Cefn Road,
Wrexham, LL13 9NG



www.ysgolmorganllwyd.cymru



[bocspost@ysgolmorganllwyd.
wrexham.sch.uk](mailto:bocspost@ysgolmorganllwyd.wrexham.sch.uk)



@ymll_wrexham



@YsgMorganLlwyd



Ysgol Morgan Llwyd Wrexham



PARHAU Â'R DAITH

Mae dewis addysg Gymraeg i'ch plentyn yn benderfyniad pwysig iawn i chi fel rhieni, yn enwedig i'r rheiny ohonoch nad ydych yn siarad Cymraeg. Mae'n ymrwymiad mawr ac yn effeithio nid yn unig ar daith addysgol eich plentyn ond drwy gyfrannu at ddiogelu a hybu'r iaith Gymraeg.

Mae anfon eich plentyn i ysgol cyfrwng Cymraeg yn sicrhau eu bod yn cael eu trochi'n barhaus yn niwylliant Cymru ac yn darparu cyfleoedd allgyrsiol unigryw na fyddent o bosibl yn eu derbyn mewn ysgol cyfrwng Saesneg.



PARHAU Â'R DAITH

Mae taith addysgol eich plentyn yn datblygu ymhellach erbyn iddynt gyrraedd CA3, gyda chyfleoedd iddynt feithrin eu doniau ymhellach wrth dderbyn addysg o'r radd flaenaf yn y Gymraeg.

Mae'r ysgol yn diwallu anghenion pob disgybl cynradd sy'n ein bwydo. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at gyrhaeddiad eich plentyn a'u gweld yn datblygu i fod yn unigolion cydwybodol wedi'u harfogi gyda'r sgiliau a'r galluoedd ieithyddol angenrheidiol i fod yn llwyddiannus yng Nghymru fodern, ddwyieithog.

Yn Ysgol Morgan Llwyd, rydym yn rhoi blaenoriaeth i ddod i adnabod y disgyblion hynny sy'n ein bwydo o'r ysgolion cynradd cyn mis Medi. Ein nod yw hwyluso proses drosglwyddo didrafferth a chyfforddus i bob disgybl.



PARHAU Â'R DAITH

Rydym yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 ymweld â'r ysgol cyn mis Medi er mwyn iddynt ymgyswrtu gyda thir a chymuned ein hysgol. Mae hyn yn ein galluogi i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon sydd ganddynt ynghylch y broses o drosglwyddo.

Mae aelodau staff yn ymweld â'n hysgolion cynradd cyn mis Medi i sefydlu perthnasau â'r disgyblion a pharatoi ar gyfer eu cyrhaeddiad. Ar ben hynny, rydym yn cynnig tridiau o weithgareddau trosglwyddo ym mis Mehefin. Rydym hefyd yn cynnal noson wybodaeth er mwyn i rieni grwydro o amgylch y safle i weld ein cyfleusterau a chael cyfle i gwrdd â'n staff a'n disgyblion presennol.

Unwaith y bydd disgyblion blwyddyn 7 yn dechrau ym mis Medi, byddant yn cael eu rhoi o dan arweiniad eu Penaeithiaid Blwyddyn a Thiworiaid Cofrestru i sicrhau proses drosglwyddo llwyddiannus a didrfferth.



GWELEDIGAETH A GWERTHOEDD

Mae Ysgol Morgan Llwyd yn ymdrechu i feithrin cymuned groesawgar, garedig ac uchelgeisiol sy'n blaenoriaethu rhinweddau fel gonestrwydd, goddefgarwch, a diwydrwydd, wrth feithrin diwylliant o gyfrifoldeb ac ymrwymiad.

Ein hymrwymiad fel ysgol yw rhoi cyfle i bob disgybl wireddu eu gallu'n academiaidd, ymarferol a chymdeithasol, gan eu grymuso gyda'r wybodaeth, sgiliau, a'r sicrwydd gofynnol i ragori mewn cymdeithas fodern, gystadleuol.

Fel ysgol cyfrwng Cymraeg, rydym yn ymroddedig i feithrin cymuned sydd â hoffter llwyr at y Gymraeg, yn ogystal â gwerthfawrogiad llwyr o'n diwylliant a'n treftadaeth gyfoethog.

Y GYMRAEG

Ysgol cyfrwng Gymraeg yw Ysgol Morgan Llwyd, ac mae'r iaith Gymraeg yn gonglfaen i'w hanfod a'i hunaniaeth.

Mae'r addysg a ddarperir yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, gan danlinellu'r ymrwymiad sydd gennym i gefnogi a diogelu'r iaith.

Yn ganolog i'n cenhadaeth yw meithrin disgyblion sy'n falch o'u cenedl, diwylliant, a'u treftadaeth. Cyflawnir hyn drwy goffáu dyddiau cenedlaethol, dysgu am hanes Cymru, a chynnig profiadau diwylliannol iddynt.

Ein prif amcan yw arfogi ein disgyblion gyda'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen i gymryd rhan weithredol yn ein cymdeithas ddwyieithog a chymuned leol, lle mae'r gallu i siarad Gymraeg yn fantais glir.





POLISI DERBYN

Cedwir lleoedd ar gyfer disgyblion sydd wedi cwblhau eu haddysg mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg o fewn y dalgylch. Yn ogystal, mae nifer cyfyngedig o leoedd yn cael eu dyrannu i ddisgyblion sy'n trosglwyddo o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yr ardal i'r 'Cynllun Trochi Iaith' yn Ysgol Morgan Llwyd.

Mae'r ysgol yn dilyn y canllawiau a osodwyd gan yr Awdurdod Lleol, wedi'u hamlinellu gan Adran Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Am ragor o fanylion, ewch i:

[Linc Polisi Derbyn](#)

Y CYNLLUN TROCHI

Mae Ysgol Morgan Llwyd yn cydweithio gyda'r Awdurdod Lleol i gynnig 'Cynllun Trochi Iaith' hynod lwyddiannus. Cynlluniwyd y cynllun i ddisgyblion Blwyddyn 6 sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg o fewn yr ardal leol. Mae'r fenter hon yn cynnig cyfle gwerthfawr i ddisgyblion gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg.

Gan ddechrau yn nhymor yr Haf yn ystod blwyddyn olaf y disgyblion yn yr ysgolion cynradd, mae'r rhaglen hon yn eu galluogi i gael trosglwyddiad didrafferth i Flwyddyn 7. Ein hamcan yw sicrhau bod y disgyblion hyn wedi cyrraedd pwynt lle maent wedi'u hintegreiddio'n llawn i'n system addysg cyfrwng Cymraeg erbyn eu trydedd flwyddyn.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r ysgol yn uniongyrchol os gwelwch yn dda, neu, ewch i:

www.agw.cymru // <https://www.youtube.com/@agwreccsam>





Y DIWRNOD YSGOL

Mae'r diwrnod ysgol yn dechrau am 8:50yb
ac yn gorffen am 15:30yp.

Cofrestru: 8:50 - 9:20

Gwers 1: 9:20 - 10:10

Gwers 2: 10:10 - 11:00

Egwyl: 11:00 - 11:20

Gwers 3: 11:20 - 12:10

Gwers 4: 12:10 - 13:00

Cinio: 13:00 - 13:50

Gwers 5: 13:50 - 14:40

Gwers 6: 14:40 - 15:30



CWRICWLWM

PAddysgir disgyblion blynyddoedd 7-9 yn unol â chanllaw Cwricwlwm i Gymru. Mae pedwar diben wrth wraidd y Cwricwlwm, sef datblygu:

- Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Mae hyn yn cyd-fynd â gweledigaeth yr ysgol i greu, **'Cymuned falch, groesawgar sy'n angerddol dros allu pob unigolyn i gyflawni ei botensial a'i uchelgais, ac i ddatblygu i fod yn aelod hapus, hyderus, annibynnol a chyfrifol o'i gymdeithas.'**

Mae'r ysgol yn darparu gwersi i ddisgyblion o fewn y chwe maes dysgu a phrofiad sef: Celfyddydau Perfformio, Ieithoedd a Llythrennedd, Iechyd a Lles, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Mathemateg a Rhifedd a Dyniaethau. Mae pynciau fel Addysg Personol a Chymdeithasol, Crefydd a Moeseg, ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb hefyd yn cael eu dysgu o fewn y meysydd hyn yn ogystal ag yn ystod cyfnodau cofrestru a digwyddiadau achlysurol.



CWRICWLWM

Cyfnod Allweddol 4

Wrth i ddisgyblion symud o Gyfnod Allweddol 3 i 4, byddant yn profi'r broses o ddewis eu pynciau TGAU. Cynhelir nosweithiau gwybodaeth i rieni er mwyn rhannu gwybodaeth a chynnal trafodaethau ar y cyd rhwng y disgyblion, rhieni a'r staff.

Mae'r broses yn dechrau yn nhymor y Gwanwyn ym mlwyddyn 9. Yn ogystal â'r pynciau dewisol, bydd disgyblion yn astudio'r pynciau craidd; Mathemateg, Gwyddoniaeth, Cymraeg, Saesneg, Addysg Gorfforol ac Addysg Grefyddol. Byddant hefyd yn dilyn y Fagloriaeth Gymreig.

Ein nod trwy gydol y broses hon yw sicrhau fod pob disgybl unigol yn dewis y llwybr cywir sy'n gweddu i'w **gallu, doniau, diddordebau ac uchelgeisiau.**

Y CHWECHED DOSBARTH

Mae Chweched Dosbarth Ysgol Morgan Llwyd yn cynnig ystod eang o bynciau, gan roi cyfleoedd addysgiadol gwerthfawr a phrofiadau bywyd amrywiol i'n disgyblion. Mae ein chweched dosbarth yn cynnal safonau uchel yn ymwneud ag addysg, ymddygiad, ac ymroddiad.

Yn cyflawni canlyniadau Lefel A canmoladwy yn gyson, mae'r ysgol wedi rhagori ar y cyfartaleddau cenedlaethol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cyfran sylweddol o'n disgyblion yn mynd ymlaen i ddilyn addysg uwch. Mae ein cysylltiadau cryf â phrifysgolion, busnesau lleol, a gweithwyr proffesiynol yn cyfrannu'n sylweddol at ein cyflawniadau. Ymhlith y ffactorau sydd wedi cyfrannu at lwyddiant ein chweched dosbarth yw'r gefnogaeth a'r arweiniad cadarn y caiff disgyblion gan ein staff ymroddgar.

Mae ein cwricwlwm yn cynnwys ystod eang o gyrsiau gan gynnwys cyrsiau Lefel A/AS, cyrsiau galwedigaethol BTEC, a'r Fagloriaeth Gymreig, gan gynnig bwydlen academaidd gynhwysfawr i'n dysgwyr.





CEFNOGI DISGYBLION - YR HWB BUGEILIOL

Mae lles disgyblion Ysgol Morgan Llwyd **yn holl bwysig.**

Yn ogystal â threfniadau bugeiliol arferol, mae gan yr ysgol Hwb Bugeiliol.

Yn Yr Hwb Bugeiliol, mae:

- Miss Hannah Mullock: Swyddog Cefnogi Disgyblion/Rhieni a Swyddog Diogelu Plant
- Mrs Rhian Jones: Swyddog Cefnogi Disgyblion
- Miss Nicole Marubbi, Swyddog Cefnogi Cymorth Cyntaf a Chymorth Cyntaf Iechyd Meddwl
- Miss Thea Huggett: Swyddog Gweinyddol y Dderbynfa Disgyblion
- Miss Heddus Wyn, Pennaeth Cynorthwyol (Lles a Disgyblaeth).

CEFNOGI DISGYBLION - YR HWB BUGEILIOL

Gall disgyblion fynd i'r Hwb os ydynt:

yn teimlo'n sâl

gyda phroblem o safbwynt gwisg / offer


angen gwneud apwyntiad i siarad gydag aelod o staff am broblem

am gael sesiynau cefnogi un i un neu / grŵp gan gynnwys sesiynau ELSA

angen saib bach am 10 munud.

Gall rhieni a disgyblion ofyn am gefnogaeth ychwanegol gan yr Hwb Bugeiliol drwy fynd ar ein gwefan:

[Linc Hwb Bugeiliol](#)



YR HWB DYSGU

Mae pawb angen help gyda'u gwaith ysgol bob hyn a hyn. Dyna pam sefydlwyd yr Hwb Dysgu yn yr ysgol. Ein cenhadaeth yw sicrhau bod POB DISGYBL yn cael cyfleoedd ychwanegol a'r cymorth angenrheidiol i gyrraedd eu potensial yn llawn.

Mae'r Hwb Dysgu ac Addysgu yn cefnogi profiadau dysgu presennol y disgyblion ac yn darparu cyfleoedd iddynt feithrin ac atgyfnerthu'r sgiliau sydd eu hangen i'w helpu i wneud y gorau o'u haddysg. Rydym yn trefnu ac yn rhoi cymorth academaidd pwrpasol ar waith i helpu ein disgyblion gyflawni eu nodau academaidd, a gallwn wneud hynny ar gyfer y rhai sydd eisiau'r gefnogaeth honno hefyd.

Gall rhieni a disgyblion ofyn am gefnogaeth ychwanegol gan yr Hwb Dysgu ac Addysgu drwy ein gwefan:

[Linc Hwb Dysgu](#)



YR HWB DYSGU

Rydym yn cynnig:

- ·Sesiynau mentora i ddisgyblion o bob oedran a gallu er mwyn iddynt ddeall eu gwaith yn well
- ·Sesiynau "dal i fyny" i ddisgyblion sydd wedi bod yn absennol o'r ysgol
- ·Gweithdai ac adnoddau er mwyn helpu disgyblion i ddatblygu sgiliau newydd, gan gynnwys sgiliau adolygu at yr arholiadau allanol
- ·Gweithgareddau Rhwydwaith Seren/MAT (Mwy abl a thalentog)
- ·Cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu at waith yr Hwb Dysgu trwy ddod yn Fentor Dysgu
- ·Adnoddau i helpu disgyblion aros yn bositif ac yn wydn mewn cyfnodau pan fo gwaith ysgol yn heriol;
- ·Clybiau amser egwyl/cinio e.e. Clwb Gwyddbwyll, Clwb Ieithoedd, Clwb Actio, Clwb Darllen, Clwb Ciwb Rubik, Clwb Ysgrifennu Creadigol, Clwb Gwaith Crosio a llawer mwy...
- ·Ardal fawr, dawel, cyfforddus a modern i weithio yn ogystal â saith "pod" gwydr sy'n berffaith i wneud gwaith annibynnol a chynnal gweithdai a chyfarfodydd.

YSGOL IACH

Mae ffreutur yr ysgol ar agor rhwng 8:30-8:45 ac yn darparu brecwast syml. Mae'r ffreutur hefyd ar agor amser egwyl ac amser cinio. Rydym yn darparu system lle gall disgyblion ddewis eu prydau o fwydlen ddyddiol am gost o ryw £2.80. Mae digon o gyfle ganddynt i ddewis amrywiaeth o fwyd a diodydd iach. Mae croeso hefyd i ddisgyblion ddod â pheccyn bwyd gyda nhw.

Gweithredir system fiometreg o adnabod bawd sy'n caniatáu i'r ffreutur weithredu'n llwyddiannus.

Am wybodaeth ynglŷn â Phrydau Ysgol am Ddim a'r ffurflen gais, cysylltwch â'r ysgol neu ewch i wefan Adran Addysg Cyngor Sir Wrecsam:

[Linc Ysgol Iach](#)

Mae llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu ffitrwydd yn allgyrsiol trwy weithgareddau allgyrsiol yr Adran Addysg Gorfforol a'r cynllun 5X60. Mae copi o amserlen y gweithgareddau ar gael yma:

[Linc 5x60](#)





DATHLU LLWYDDIANT

‘Dim ond trwy ymdrech gyson a gwaith caled y daw llwyddiant.’

Daw llwyddiant ar wahanol ffurfiau ac mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu cydnabod a'u dathlu.

Defnyddir hysbysfyrddau, gwasanaethau, cyfnodau cofrestru bore a phlatfformau cyfryngau cymdeithasol i ddathlu cyraeddiadau'r disgyblion. Mae gwefan yr ysgol a'r wasg leol yn arddangos llwyddiant academaidd y disgyblion a'u cyfraniad at fywyd yr ysgol a'r gymuned yn gyson.



DATHLU LLWYDDIANT

Cynhelir Nosweithiau Gwobrwyo blynyddol i gydnabod rhagoriaeth academiaidd, presenoldeb ardderchog a'r rhai sydd wedi cyfrannu tuag at yr ysgol a'r gymuned ehangach.

Gwahoddir cyn-ddisgyblion sy'n llwyddiannus yn eu meysydd dewisol yn aml i'r dathliadau hyn ynghyd â digwyddiadau eraill er mwyn ysbrydoli disgyblion i anelu'n uchel a gweld manteision uniongyrchol dwyieithrwydd.

TU HWNT I'R DOSBARTH

Mae Ysgol Morgan Llwyd yn cynnig ystod eang o weithgareddau tu hwnt i'r dosbarth at ddant pawb. Credwn y bydd y rhain yn cyfoethogi eu profiadau, yn ehangu eu gorwelion ac yn datblygu sgiliau gwahanol i'r rhai a geir tu ôl i ddesg.

Celfyddydau Perfformio:

Ceir cyfleoedd ardderchog yma ym maes perfformio. Yn ogystal â'r gwersi offerynnol a chanu a ddarperir gan Wasanaeth Cerdd Wrecsam, mae'r adrannau Cerdd a Drama yn darparu profiadau bythgofiadwy i'r disgyblion e.e. sioeau ysgol ac Eisteddfodau.

Mae gan yr ysgol bartïon canu a chorau ar gyfer grwpiau iau a hÿn, partïon llefaru a chyflwyniadau llafar. Mae unigolion ymhlith ein disgyblion hefyd yn llwyddo ar lwyfannau'r Urdd a'r Eisteddfod.



TU HWNT I'R DOSBARTH

Chwaraeon:

Mae'r Adran Addysg Gorfforol yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n apelio at bob disgybl; mae'r adran hefyd yn cynnal safonau uchel o ran gwisg yn enwedig pan fydd disgyblion yn cynrychioli'r ysgol mewn digwyddiadau yn ymwneud â chwaraeon.

Cynigir gweithgareddau megis rygbi, pêl-droed a chriced, pêl-rwyd, athletau, badminton, ffitrwydd a chyfeiriannu i grybwyll ond rhai. Mae'r rhain yn digwydd o fewn y gwersi ac yn allgyrsiol.

Rhagora ein disgyblion mewn sawl maes ac mae canran uchel ohonynt yn cynrychioli'r ysgol mewn timau chwaraeon ac yn cynrychioli'r Sir, Cymru a'r Deyrnas Unedig mewn amrywiaeth o chwaraeon. Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan:

Linc AG





CYSYLLTIADAU DIWYDIANT

Mae gan yr ysgol gysylltiadau arbennig o dda gyda chwmnïau, elusennau a'r byd diwydiant yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Rydym yn manteisio ar y cysylltiadau hyn i roi profiadau gwerthfawr o fyd diwydiant a busnes i'n disgyblion.

Caiff ymweliadau i ganolfannau busnes eu trefnu trwy gydol y flwyddyn yn ogystal â theithiau i gwmnïau lleol fel JCB, Gwesty Grosvenor Pulford, y Farchnad Stoc yn Llundain a'r 'Royal Institute of Chemistry'.

Rydym hefyd yn gwahodd cwmnïau megis EESW (Cynllun Addysg Beirianeg Cymru), Airbus, Science Made Simple a'r Fyddin i roi cipolwg ar ddiwydiannau gwahanol.

YMWELIADAU A THEITHIAU

Mae dewis amrywiol o deithiau ar gael i bob disgybl, ac maent yn amrywio i fod yn deithiau lleol ar draws Cymru a'r Deyrnas Unedig i deithiau gwledydd tramor.

Mae'r teithiau hyn yn cynnig profiadau eang a chyfoethog i'r disgyblion, gan gynnwys ymweliadau diwylliannol, teithiau sgïo i Ffrainc, teithiau hanesyddol i Ferlin, Gwlad Belg, Washington, ac Efrog Newydd, a theithiau mor bell â Gwlad yr Iâ ac Affrica.

Mae'r ysgol yn ymdrechu i gadw pris y teithiau hyn yn fforddiadwy fel bod pob disgybl yn gallu manteisio ar y cyfle i'w profi.


CYNGOR GYRFÂU

Credwn yn gryf yn Ysgol Morgan Llwyd fod Addysg Gyrfâu a Byd Gwaith yn rhan hanfodol o ddatblygiad person ifanc.

Mae dewis y llwybr cywir yn bwysig wrth i ddisgyblion fynd drwy'r broses opsiynau ym Mlwyddyn 9 ac 11, ac i'r Chweched Dosbarth wrth iddynt benderfynu ar y cam nesaf ar ôl gadael yr ysgol.

Mae pob disgybl o Flwyddyn 9 ymlaen yn derbyn sesiynau cynghori penodol o ran TGAU, Safon Uwch, ceisiadau coleg a phrifysgol. Ym mlwyddyn 11, caiff bob disgybl ffug-gyfweliad ffurfiol gan aelodau blaenllaw'r gymuned broffesiynol a busnes.

O ran disgyblion y Chweched Dosbarth, yn ogystal â chyfweiliadau a ddarperir gan Gyrfa Cymru, bydd disgyblion yn cael eu cefnogi a'u mentora gan aelod profiadol o staff wrth iddynt fynd i'r afael â'u ceisiadau UCAS yn ogystal ag ymchwilio i gyfleoedd gwaith a phrentisiaethau.





ADDYSG GREFYDDOL A GWASANAETHAU

Disgwylir i bob disgybl fynychu cynullïadau wythnosol yn ogystal â gwasanaethau ysgol gyfan a gynhelir ddwywaith y tymor.

Darperir cynnwys y cwricwlwm Addysg Grefyddol drwy wersi Addysg Grefyddol a chyfnodau munud i feddwl. Mae'r cynullïadau wythnosol a gynhelir i bob blwyddyn yn gyfle i ddathlu llwyddiant, rhannu gwybodaeth allweddol yn ogystal â myfyrio ar werthoedd a materion cyfoes.

Mae gan rieni'r hawl i eithrio eu plentyn o'r profïadau hyn am resymau cydwybod trwy wneud cais ysgrifenedig at y Pennaeth.



MEWN PARTNERIAETH Â RHINI

Fel ysgol, rydym yn blaenoriaethu cydweithio gyda rhieni, gwarcheidwaid, a gofalwyr i sicrhau bod ein disgyblion yn mwynhau taith academaidd foddhaus a llwyddiannus.

Rhennir diweddariadau am yr ysgol drwy sianeli amrywiol megis llythyrau, e-byst, a phlatfformau cyfryngau cymdeithasol.

Yn ogystal, defnyddir gwefan yr ysgol i ddarparu gwybodaeth a hyrwyddo enw da'r ysgol i'r gymuned ehangach:

<https://www.ysgolmorganllwyd.cymru>

Rhennir diweddariadau dyddiol ar gynnydd y disgyblion ar 'Go4Schools'. Mae'r rhaglen hon yn darparu gwybodaeth byw i rieni ar ddatblygiad eu plentyn. Rhoddir cyfle ffurfiol i rieni drafod cyraeddiadau academaidd eu plentyn mewn nosweithiau rhieni, ac anogir y rhai sydd am drafod materion addysgol neu faterion eraill i gysylltu â'r ysgol.

PERTHNASOEDD AC ADDYSG RHYW

Mae Perthnasoedd ac Addysg Rhyw yn elfen fandadol o'r Cwricwlwm i Gymru ac yn cynnwys 3 llinyn dysgu cysylltiedig sef:

Perthnasoedd a hunaniaeth

Iechyd rhywiol a lles

Grymuso, diogelwch a pharch

Cânt eu cyflwyno ar draws y cwricwlwm i bob blwyddyn ysgol. Am ragor o wybodaeth, ewch i:

[Linc Perthnasoedd ac Addysg Rhyw](#)



GWISG YSGOL

Rydym yn cynnal safonau uchel iawn o ran gwisg ysgol ein disgyblion. Gofynnwn am gefnogaeth rhieni i sicrhau fod ein disgyblion yn parhau i ymddangos yn daclus yn yr ysgol ac wrth ei chynrychioli mewn gweithgareddau allgyrsiol.

Mae'r wisg swyddogol yn cynnwys esgidiau a sanau du; trowsus neu sgert ddu; crys neu flows wen; tei a siwmpwr ysgol. Mae gwisg benodol ar gael ar gyfer yr Adran Addysg Gorfforol hefyd. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan yr ysgol:

Linc Gwisg Ysgol





CYFLE CYFARTAL

Mae Ysgol Morgan Llwyd yn ymroddedig i ddarparu cyfle cyfartal i bawb.

Ein nod fel ysgol yw gosod y sylfeini ar gyfer cymdeithas gyfiawn a chyfartal. Ceir rhagor o wybodaeth yma:

Linc Cyfle Cyfartal



ADY / CAMAU

Un o flaenoriaethau Ysgol Morgan Llwyd yw gwella galluoedd, cyflawniadau a chyfraniadau pob disgybl yn ogystal â chodi eu dyheadau. Credwn yn gryf mewn darparu ar gyfer pob dysgwr, beth bynnag ei allu, rhyw a hil, mewn amgylchfyd hapus a diogel lle y gall ddatblygu hyd eithaf ei allu yn academaidd ac yn gymdeithasol. Rydym yn cydnabod bod continwwm o anghenion a bod gan ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yr hawl i addysg eang a chytbwys y Cwricwlwm Cenedlaethol. Nod Ysgol Morgan Llwyd yw integreiddio pob disgybl i bob agwedd o fywyd ysgol.

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Prif ddiben y ddeddf yw:

- Canolbwyntio ar anghenion dysgwyr rhwng 0-25 oed.
- Sicrhau bod Cynllun Datblygu Unigol gan bob disgybl ADY sydd angen un.
- Cyfrannu at gydweithio gwell rhwng athrawon, rhieni, disgyblion ac asiantaethau fel bod anghenion yn cael eu hadnabod yn gynnar a'r cymorth cywir yn cael eu rhoi ar waith.
- Gwella cefnogaeth i blant a sicrhau eu bod yn cael y cyfleoedd gorau mewn bywyd.
- Gosod y disgybl yn ganolog i'r holl broses a sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed a'u barnau'n cael eu hystyried.



ADY / CAMAU

Nodau'r Adran ADY (Camau):

- Mae rhoi pob math o gyfle i ddatblygu gwir botensial ein holl ddisgyblion yn hanfodol yn ein hadran ni.
- Mae cymorthyddion yr adran yn cynnig ystod o gefnogaeth er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn llwyddo.
- Sicrhau bod gan bob disgybl yr hawl i gwricwlwm eang a chytbwys gyda mynediad lawn at y Cwricwlwm Cenedlaethol lle'n berthnasol.
- Gwerthfawrogi pob plentyn a hybu ei hunanwerth.
- Meithrin perthynas agos gyda rhieni/gofalwyr sydd yn chwarae rôl bwysig iawn o fewn addysg eu plentyn.

Cyfranogiad Rhieni/Gwarcheidwaid


- Mae'n bwysig bod Ysgol Morgan Llwyd yn gweithio'n agos gyda rhieni /gwarcheidwaid disgyblion gydag ADY a bod eu safbwyntiau'n cael eu hystyried.
- Anogir rhieni/gwarcheidwaid i rannu eu safbwyntiau yn ystod pob cam o'r broses ADY ac fe'u hanogir hefyd i lenwi'r holl ddogfennau i sicrhau yr ystyrir eu safbwyntiau.
- Disgwylir i rieni/gwarcheidwaid gwrdd â'u swyddog enwebedig fel y bo'n briodol.
- Fel adran, mae mewnbwn rhieni a gwarcheidwaid yn allweddol i lwyddiant ein disgyblion. Mae gennym bolisi drws agored. Mae croeso i chi ffonio neu ymweld â'r ysgol i drafod unrhyw bryder neu gynnydd.

Y TREFNYDD PERSONOL

Mae trefnu amser a gwaith ysgol yn effeithiol yn sgil hanfodol i ddisgyblion ei meithrin, ac er mwyn ei gwella a'i datblygu, mae gan bob disgybl y Trefnydd Personol i'w helpu.

Mae'n hollbwysig i bob disgybl ddiweddarau eu Trefnydd Personol yn gyson, gan ddefnyddio adrannau'r dyddiadur gwaith cartref, cofnod clod a thargedau personol. Ceir hefyd gwybodaeth bwysig ynddo i rieni a disgyblion fel yr amserlen, offer angenrheidiol, gwisg ysgol a disgwyliadau academaidd.

Mae'r Trefnydd Personol hefyd yn gyfrwng cyswllt hanfodol ac effeithiol rhwng yr ysgol a'r cartref, ac yn caniatáu i rieni, athrawon a thiwtoriaid adael negeseuon ynddo.





DIOGELU PLANT

Mae Ysgol Morgan Llwyd yn ymrwymedig i greu amgylchedd diogel a hapus i bob aelod o'n cymuned ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd diogelu ac amddiffyn bob disgybl tra maent o dan ein gofal.

Rydym yn anelu i fod yn ddyfal yn ein hymdrechion i ofalu am les pob plentyn. Mae gan yr ysgol bolisi Diogelu Plant sydd yn adlewyrchu'r gweithdrefnau sydd wedi eu hamlinellu yn y ddogfen 'Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru'.

Am ragor o wybodaeth, ewch i:

[Linc Diogelu Plant](#)



CLUDIANT

Darperir cludiant i bob disgybl yn y dalgylch sy'n byw dros dair milltir o'r ysgol gan yr Awdurdod Lleol.

Mae angen pàs bws ar y rhai sy'n teithio ar fysiau a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol. Ceir rhagor o wybodaeth am gludiant a ffurflen bwrpasol i drefnu pàs bws ar wefan y cyngor:

<https://www.wreccsam.gov.uk/service/cludiant-ysgol>

Gallwch hefyd ffonio'r Adran Cludiant ar: **01978 292056**.



TREFN CWYNO

Dylai rhieni neu ofalwyr sy'n anfodlon ynghylch unrhyw fater sy'n ymwneud â'r ysgol gysylltu â ni ar unwaith.

Bydd y Pennaeth bob amser yn barod i gwrdd â rhieni neu ofalwyr sy'n pryderu er mwyn datrys unrhyw anawsterau sydd ganddynt. Os yw rhiant / gwarcheidwad yn parhau yn anfodlon, dylai gysylltu â Chadeirydd y Corff Llywodraethu, Mr Huw Robertson, drwy law'r ysgol.

Gellir **cyfeirio** cwyn fwy difrifol at:

Adran Dysgu Gydol Oes.
Adeiladau'r Goron,
31 Stryt Caer,
Wreccsam,
LL13 8BG

Ffôn: 01978 298991

E-bost: education@wrexham.gov.uk





POLISI CODI TÂL

Ni chodir tâl am ddarparu'r cwricwlwm ond gellir gofyn am daliadau gwirfoddol i dalu am weithgareddau allgyrsiol megis ymweliadau preswyl, digwyddiadau chwaraeon a theithiau diwedd blwyddyn.

Mae'r ysgol bellach yn codi tâl gorfodol blynyddol ar rieni/gofalwyr i dalu am gynhwysion, bwyd, a defnyddiau ar gyfer gwersi Dylunio a Thechnoleg eu plentyn. Y gost flynyddol yw £12 y disgybl. Cyflwynwyd y gost er mwyn lleddfu unrhyw straen ariannol a hwyluso trefniadau i rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr.

Am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at bolisi'r ysgol:

[Linc Polisi Codi Tâl](#)



YSTADEGAU/ CANLYNIADAU ARHOLIADAU

Crynodeb o Ganlyniadau Arholiadau Allanol – Haf 2023

Chweched Dosbarth – Lefel A

Grade Total (78) Percentage

A*/A 18 23.1%

A*-B 34 43.6%

A*-C 51 65.4%

A*-D 67 85.9%

A*-E 76 97.4%

Cyfnod Allweddol 4 – TGAU

Disgyblion sydd yn cyrraedd Trothwy Lefel 2

Gan gynnwys Iaith a Mathemateg 48.9%

Disgyblion sydd yn cyrraedd Trothwy Lefel 2 69.1%

Disgyblion sydd yn cyrraedd Trothwy Lefel 1 95%

Sgôr 9 pwynt wedi'i gapio 348.6

Cyfnod Allweddol 3

Dangosydd Pwnc Craidd 92.2%

Cymraeg 94.2%

Saesneg 97.5%

Mathemateg 93.5%

Gwyddoniaeth 96.8%



01978 315050



Ysgol Morgan Llwyd, Cefn Road,
Wrexham, LL13 9NG



www.ysgolmorganllwyd.cymru



[bocspost@ysgolmorganllwyd.
wrexham.sch.uk](mailto:bocspost@ysgolmorganllwyd.wrexham.sch.uk)



@yml_wrexham



@YsgMorganLlwyd



Ysgol Morgan Llwyd Wrexham